# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:

**Fideogynhadledd drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 23 Tachwedd 2020

Amser: 09.00 - 11.49

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/6463

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Nick Ramsay AS (Cadeirydd)<br>Gareth Bennett AS<br>Angela Burns AS<br>Vikki Howells AS<br>Delyth Jewell AS<br>Rhianon Passmore AS<br>Jenny Rathbone AS |
| Tystion: | Shan Morgan, Llywodraeth Cymru<br>Gawain Evans, Llywodraeth Cymru<br>David Richards, Llywodraeth Cymru<br>Andrew Slade, Llywodraeth Cymru |
| Archwilio Cymru: | Adrian Crompton - Archwilydd Cyffredinol Cymru<br>Alison Butler<br>Richard Harries<br>Matthew Mortlock |
| Staff y Pwyllgor: | Fay Bowen (Clerc) |

Senedd Cymru
Welsh Parliament

| | |
|---|---|
| | Claire Griffiths (Dirprwy Glerc)<br><br>Joanne McCarthy (Ymchwilydd)<br><br>Katie Wyatt (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau.

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

## 2 Craffu ar Gyfrifon 2019-20: Sesiwn dystiolaeth gyda Llywodraeth Cymru

2.1 Bu'r Aelodau yn holi'r Ysgrifennydd Parhaol ar Gyfrifon Cyfunol ac Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Gymru 2019-20.

2.2 Cytunodd yr Ysgrifennydd Parhaol y byddai'n:

- Anfon copi o'r papur asesu technegol a baratowyd ar gyfer Trysorlys Ei Mawrhydi, ac wedi hynny i'w ystyried gan y Bwrdd Cynghori ar Adroddiadau Ariannol (FRAB) ynghylch y weithdrefn ar gyfer ymdrin â grantiau mewn amgylchiadau eithriadol.
- Rhoi trosolwg o nifer a natur unrhyw gontractau sy'n bodoli, os o gwbl, rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar gyfer gwasanaethau sy'n gysylltiedig â Covid-19.
- Cadarnhau a oedd contract ar waith gyda Lighthouse Labs, ac os felly, a oedd yn cynnwys cymalau ar gyfer amseroedd cyflawni, ac a fyddai perfformiad gwael wedi bod yn gyfystyr â thorri ar y contract.
- Cadarnhau a oes gan Lywodraeth Cymru gontract neu gytundeb ysgrifenedig arall gyda Llywodraeth y DU ar gyfer cyrchu a darparu'r brechlyn Covid-19.
- Rhoi gwybodaeth ychwanegol am amseriad disgwyliedig derbyniadau rhaglenni'r UE.
- Darparu sail resymegol o ran sut mae model yr Adran Addysg, a ddefnyddir i gyfrifo dileu benthyciadau myfyrwyr, wedi'i addasu i'w ddefnyddio yng Nghymru.

- Cadarnhau faint o log oedd yn daladwy ar y ffi warant ynghyd â'r costau cyfreithiol cysylltiedig o ran dileu'r prosiect Cylchffordd Cymru.
- Darparu tabl sy'n rhoi manylion y swm a dalwyd am dir ac adeiladau, a'r swm y cawsant eu gwerthu amdano wedi hynny, yn dilyn y cyhoeddiad na fyddai cynllun coridor yr M4 yn mynd yn ei flaen. Bydd y pris prynu hefyd yn dangos y pris malltod a'r gwir bris prisio.

2.3 Cytunodd Andrew Slade i gynnwys sylwebaeth ynghylch y canfyddiad ychwanegol y cytunwyd arno ar gyfer y Ganolfan Confensiwn Rhyngwladol yn ei lythyr ar gyllid busnesau, sy'n cael ei baratoi ar gyfer y Pwyllgor ar hyn o bryd.

## 3 Papur(au) i'w nodi

3.1 Nodwyd y papur.

### 3a Cronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio (RIFW): Llythyr oddi wrth Lywodraeth Cymru (11 Tachwedd 2020)

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn:

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 5 Craffu ar Gyfrifon 2019-20: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

5.1 Trafododd yr Aelodau y dystiolaeth a ddaeth i law. Bydd y Pwyllgor yn parhau â'i waith craffu ar Gyfrifon Cyfunol ac Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Gymru 2019-20 ar 7 Rhagfyr 2020.

## 6 Blaenraglen waith: Blaenraglen Waith ar gyfer y gwanwyn 2021

6.1 Nododd yr Aelodau y flaenraglen waith ar gyfer y gwanwyn 2021.